# Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010

**2010 mccc 5**

**2 Dyletswydd i lunio strategaeth**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol drwy reoliadau i awdurdod perthnasol, neu ddau neu fwy o awdurdodau perthnasol baratoi a chyhoeddi strategaeth yn nodi sut y bydd yr awdurdod yn gweithio neu'r awdurdodau yn cydweithio—

(a) i ddarparu gwybodaeth briodol a chyngor priodol i ofalwyr,

(b) i sicrhau, pan fo'n dod i ran unrhyw awdurdod i benderfynu pa wasanaethau (os o gwbl) sydd i'w darparu i ofalwr neu'r person y gofelir amdano, neu ar gyfer y naill neu'r llall ohonynt, yr ymgynghorir â'r gofalwr cyn bod y penderfyniad hwnnw'n cael ei wneud, ac

(c) i sicrhau bod pob awdurdod yn ymgynghori â gofalwyr cyn ei fod yn gwneud penderfyniadau cyffredinol eu natur ynghylch darparu gwasanaethau i ofalwyr a'r personau y maent yn gofalu amdanynt, neu ynghylch darparu gwasanaethau ar eu cyfer.

(2) Rhaid i bob awdurdod perthnasol sy'n gyfrifol o dan is-adran (1) am baratoi a chyhoeddi strategaeth weithredu'r strategaeth.

(3) Yr "awdurdodau perthnasol" yw—

(a) unrhyw Fwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p. 42);

(b) unrhyw ymddiriedolaeth GIG a sefydlwyd o dan adran 18 o'r Ddeddf honno;

(c) unrhyw Awdurdod Iechyd Arbennig a sefydlwyd o dan adran 22 o'r Ddeddf honno;

(d) unrhyw gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol.

(4) At ddibenion is-adran (1)(b) ac (c) nid yw o bwys pwy sy'n darparu'r gwasanaethau.

(5) Yn y Mesur hwn, ystyr "awdurdod cyfrifol", mewn perthynas â strategaeth, yw awdurdod y mae'n ddyletswydd arno o dan is-adran (1) i baratoi a chyhoeddi'r strategaeth.